1 Mai 2019

**Nodyn sy'n Cyd-fynd â Hysbysiad Cyllideb Trydydd Cylch Dyrannu CfD**


1. Heddiw 1 Mai 2019 mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi'r Hysbysiad Cyllideb y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei roi i'r Grid Cenedlaethol, sef y Corff Cyflawni EMR, cyn trydydd Cylch Dyrannu Contractau Gwahaniaeth (CfD), sy'n agor ar 29 Mai 2019. Mae'r gofyniad hwn wedi'i nodi yn Rheoliad 11 o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014 (fel y'u diwygiwyd).[1]

**Cyllideb CfD a Blynyddoedd Cyflawni**

2. Mae'r Hysbysiad Cyllideb yn nodi cyllideb CfD y trydydd Cylch Dyrannu CfD sydd i agor ar 29 Mai 2019. Mae'r gyllideb CfD yn cael ei phennu yn nhermau arian ac yn nhermau capasiti (sef faint o drydan y caniateir ei gynhyrchu) ar gyfer y Cylch Dyrannu hwn. Mae'r gyllideb sydd ar gael wedi'i dyrannu i'r grŵp technolegau llai sefydledig ("Pot 2"). Dyrennir contractau CfD i'r cynigion isaf o ran y Pris Taro mewn prosiectau cymwys yn gyntaf, ni waeth beth fo'u Blwyddyn Gyflawni ddewisol, cyhyd ag y bônt yn ffitio o fewn y gyllideb ariannol a'r cap cyffredinol ar gapasiti.[2]
3. Yn y Cylch Dyrannu hwn, y gyllideb ariannol o hyd at £65 m (yn ôl prisiau 2011/12) yw'r cyfanswm uchaf o gymorth (blynyddol) sydd ar gael i gynigion sy'n ymgeisio ar gyfer y naill Flwyddyn Gyflawni neu'r llall. Bydd prosiectau llwyddiannus y cylch hwn yn cael cymorth am 15 mlynedd, yn unol â thelerau'r contract.
4. Ceir cap cyffredinol o 6GW o gapasiti yn y Cylch Dyrannu hwn.
5. Rydym yn agor dwy Flwyddyn Gyflawni, sef 2023/24 a 2024/25. Rhaid i'r ceiswyr bennu amcangyfrif (yn eu cais) o'r dyddiad yn eu Blwyddyn Gyflawni ddewisol pryd y byddant yn dechrau cynhyrchu trydan, sef dyddiad sy'n cael ei adnabod fel y 'Dyddiad Targed ar gyfer Comisiynu'. Caniateir cynigion gan geiswyr CfD sydd â Dyddiadau Targed ar gyfer Comisiynu yn y Blynyddoedd Cyflawni 2023/24-2024/25.
6. Mae'r rheolau manwl ar sut mae'r Cylch Dyrannu'n gweithio wedi'u nodi yn y Fframwaith Dyrannu: https://www.gov.uk/government/publications/contracts-for-difference-allocation-framework-for-the-third-allocation-round-2019.
7. Yn Ffigur 1 ceir darlun syml o sut y gallai'r gyllideb ariannol gael ei dyrannu yn y cylch. Mae'n dangos bod y gyllideb ariannol sydd ar gael, sef hyd at £65 m, yn uchafswm a allai gael ei ddyrannu ar draws y ddwy Flwyddyn Gyflawni yn y Cylch Dyrannu hwn.

[1] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/2011/contents/made
[2] Y mae'r Adran wedi gofyn am gymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ar ei gyfer.

**Ffigur 1: Darlun o sut y gallai'r gyllideb ariannol gael ei dyrannu ar draws y ddwy Flwyddyn Gyflawni a'r blynyddoedd prisio (enghraifft yn unig)**




**Prisiau Taro Gweinyddol**

8. Mae Tabl 1 yn yr Hysbysiad Cyllideb yn nodi'r Prisiau Taro Gweinyddol sy'n gymwys i geisiadau yn y Cylch Dyrannu hwn. Mae'r ffactorau methodolegol sy'n pennu'r Prisiau Taro Gweinyddol hyn wedi'u nodi yn y Fethodoleg Prisiau Taro Gweinyddol Contractau Gwahaniaeth.[3]

**Uchafsymiau ac Isafsymiau**

9. Ni fydd isafsymiau nac uchafsymiau yn y Cylch Dyrannu hwn.

**Prisiau Cyfeirio**

10. Mae 'pris cyfeirio' yn fesur o bris marchnad cyfartalog trydan ym Mhrydain Fawr. O dan y cynllun CfD, mae taliadau'n cael eu gwneud i gyflenwyr ar sail y gwahaniaeth rhwng eu pris taro a phris cyfeirio'r farchnad, sy'n bris un tymor ymlaen llaw ar gyfer technolegau baslwyth (megis technolegau a gyflenwir â thanwydd) a phris fesul awr un diwrnod ymlaen llaw yn achos technolegau ysbeidiol (megis gwynt ar y môr). Er mwyn cyfrifo'r effaith a gaiff pob cais ar y gyllideb yn ystod Cylch Dyrannu gan ddefnyddio'r fformiwla ddyrannu, a nodir yn y Fframwaith Dyrannu, mae'n rhaid defnyddio rhagolwg o brisiau cyfeirio'r farchnad.

11. Mae'r prisiau cyfeirio terfynol ar gyfer technolegau baslwyth a thechnolegau ysbeidiol sy'n gymwys yn y Cylch Dyrannu hwn yn cael eu cyhoeddi yn y Fframwaith Dyrannu terfynol.

12. Mae'r prisiau cyfeirio wedi'u modelu gan ddefnyddio Model Gyrru Deinamig (DDM) yr Adran. Mae'r prisiau gwahanol hyn yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio prisiau cyfartalog sydd wedi'u pwysoli yn ôl y math o gynhyrchu, a'r rheiny wedi'u casglu ar draws safleoedd technolegau baslwyth a thechnolegau ysbeidiol Pot 2

[3] https://www.gov.uk/government/publications/contract-for-difference-cfd-third-allocation-round-methodology-used-to-set-administrative-strike-prices

CfD wedi’u modelu i barhau hyd at 2050. Yn achos technolegau baslwyth mae hyn yn defnyddio pris sydd wedi’i fodelu un tymor ymlaen llaw. Yn achos technolegau ysbeidiol, mae prisiau fesul awr un diwrnod ymlaen llaw yn cael eu hamcangyfrif ar sail prisiau pob hanner awr yn ystod y diwrnod.

**DIWEDD**